**ATISN 15502 - Atodiad i'r llythyr ymateb - FOI - CM - Hate speech - 09-09-2021**

1(a) Rwy'n gofyn am gopi o fersiynau gwreiddiol Cymraeg a Saesneg ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei Gynllun Gweithredu LHDTC+, a gyhoeddwyd ar yr 28ain o Orffennaf eleni.

1(b) Y fersiwn Gymraeg wreiddiol a gyhoeddwyd ar gychwyn yr ymgynghoriad ar yr 28ain o Orffennaf.

**Ein hymateb:**

**Y fersiwn Saesneg ar yr 28ain o Orffennaf.**

# Introduction

Lesbian, gay, bisexual, transgender and queer/questioning people (LGBTQ+) with the + representing other sexual identities, face very real struggles against disadvantage, inequality and discrimination. We are consulting on an ambitious, cross-government LGBTQ+ Action Plan for Wales which seeks to tackle the existing structural inequalities experienced by LGBTQ+ communities, to challenge discrimination and to create a society where LGBTQ+ people are safe to live and love authentically, openly and freely as themselves.

# Development of the LGBTQ+ Action Plan

We have worked collaboratively with a wide range of representatives from LGBTQ+ communities to inform the development of this Action Plan. In summer 2020, we commissioned Stonewall Cymru to capture LGBTQ+ people’s lived experiences via a survey (over 600 respondents) and a series of virtual focus groups. This work highlighted what important themes should be considered for the draft Action Plan.

In November 2020, we established an LGBTQ+ External Reference Group to provide advice and guidance and in January 2021, an Independent LGBTQ+ Expert Panel was established to build on Stonewall Cymru’s initial stakeholder engagement and provide strategic advice on advancing LGBTQ+ equality in Wales. The Independent Expert Panel, comprised of

people with a depth of community-based, professional, organisational, academic and personal lived experience, met three times to clarify the issues which must be addressed if we are to achieve substantial change and improved outcomes for all LGBTQ+ people in Wales.  These meetings were supported by workshops and sub-groups which considered many issues in more detail.

The Welsh Government also commissioned Stonewall Cymru to carry out further stakeholder engagement sessions to support the Independent Expert Panel's consideration of the intersectional experiences of LGBTQ+ people. The arrangements included virtual roundtable focus groups (representing LGBTQ+ young people, older people, disabled people and Black, Asian and Minority Ethnic people) and some additional discussions with organisations including the Wales TUC, WEN Wales and LGBT Helpline Cymru.

In March 2021, the Independent Expert Panel presented their report and recommendations. The work of this Expert Panel has been used to develop the draft Action Plan for Advancing LGBTQ+ Equality in Wales, on which we are consulting.

This national LGBTQ+ Action Plan has been established to help coordinate action by the Welsh Government and other agencies. The plan sets out an overarching set of aims to improve equality for LGBTQ+ people and also includes a wide range of policy-specific actions relating to Human Rights and Recognition; Safety; Home and Communities; Health and Social Care; Education; and the Workplace.

## The consultation timeline

The consultation will run for 12 weeks. We welcome the views of LGBTQ+ people, stakeholders and the wider public and want to hear your feedback. We will reflect on the responses to the consultation to refine a final version of the Plan.  We will aim to publish the final plan early in 2022.

## What we want from you

The LGBTQ+ Action Plan contains clear, targeted actions and this consultation will help us to get feedback on several fronts. We have set a number of questions for your consideration. However, we welcome all responses and they can be in a format that's most accessible to you. If you would like to send us a video clip with your comments and thoughts, or if you would prefer to write your thoughts in the language you feel more comfortable writing in, we would welcome this.

We will not tolerate hateful comments about a person's sexual orientation, gender identity, race, religion or disability and any responses that contain hate speech will be passed to the authorities.

# Consultation questions

The Action Plan has six main themes: Human Rights and Recognition; Safety; Home and Communities; Health and Social Care; Education; and the Workplace. We would like your thoughts on the proposed actions within each theme. You may want to comment on one or all of these areas.

Please use the following questions as the basis of your response. You are welcome to add additional comments or information if you wish.

## Question 1

Do you think the Action Plan will increase equality for LGBTQ+ people and what do you think the priorities should be?

## Question 2

Do you agree with the overarching aims? What would you add or take away in relation the overarching aims?

## Question 3

Do you agree with the proposed actions? What would you add or take away in relation the actions?

## Question 4

What are the key challenges that could stop the aims and actions being achieved?

## Question 5

What resources (this could include funding, staff time, training, access to support or advocacy services among other things) do you think will be necessary in achieving the aims and actions outlined?

## Question 6

Do you feel the LGBTQ+ Action Plan adequately covers the intersection of LGBTQ+ with other protected characteristics, such as race, religion or belief, disability, age, sex, and marriage and civil partnership? If not, how can we improve this?

## Question 7

We would like to know your views on the effects that these proposals would have on the Welsh language, specifically on opportunities for people to use Welsh and on treating the Welsh language no less favourably than English.

What effects do you think there would be? How could positive effects be increased, or negative effects be mitigated?

## Question 8

Please also explain how you believe the proposed policy approach could be formulated or changed so as to have positive effects or increased positive effects on opportunities for people to use the Welsh language and on treating the Welsh language no less favourably than the English language, and no adverse effects on opportunities for people to use the

Welsh language and on treating the Welsh language no less favourably than the English language.

### Question 9

This plan has been developed in co-construction, and discussions around language and identity have shown that the acronym LGBTQ+ should be used. This stands for lesbian, gay, bisexual, transgender and queer/questioning people, with the + representing other sexual identities. As a result we refer to LGBTQ+ people in the Plan.

What are your views on this term and is there an alternative you would prefer? Welsh speakers may wish to consider suitable terminology in both languages.

### Question 10

We have asked a number of specific questions. If you have any related issues which we have not specifically addressed, please use this space to report them:

## How to respond

Submit your comments by **22 October 2021**, in any of the following ways:

- complete our **online form**
- download, complete our **response form** and email **LGBTQ+ActionPlan@gov.wales**
- download, complete our **response form** and post to:

The Equality Team
Welsh Government
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

# Your rights

Under the data protection legislation, you have the right:

- to be informed of the personal data held about you and to access it
- to require us to rectify inaccuracies in that data
- to (in certain circumstances) object to or restrict processing
- for (in certain circumstances) your data to be ‘erased’
- to (in certain circumstances) data portability
- to lodge a complaint with the Information Commissioner’s Office (ICO) who is our independent regulator for data protection.

Responses to consultations are likely to be made public, on the internet or in a report. If you would prefer your response to remain anonymous, please **tell us**.

For further details about the information the Welsh Government holds and its use, or if you want to exercise your rights under the GDPR, please see contact details below:

## Data Protection Officer

Data Protection Officer
Welsh Government
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

E-mail: **data.protectionofficer@gov.wales**

## Information Commissioner’s Office

Information Commissioner’s Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow

Cheshire
SK9 5AF

Telephone: 01625 545 745 or 0303 123 1113

Website: **ico.org.uk**

## UK General Data Protection Regulation (UK GDPR)

The Welsh Government will be data controller for any personal data you provide as part of your response to the consultation. Welsh Ministers have statutory powers they will rely on to process this personal data which will enable them to make informed decisions about how they exercise their public functions. Any response you send us will be seen in full by Welsh Government staff dealing with the issues which this consultation is about or planning future consultations. Where the Welsh Government undertakes further analysis of consultation responses then this work may be commissioned to be carried out by an accredited third party (e.g. a research organisation or a consultancy company). Any such work will only be undertaken under contract. Welsh Government's standard terms and conditions for such contracts set out strict requirements for the processing and safekeeping of personal data. In order to show that the consultation was carried out properly, the Welsh Government intends to publish a summary of the responses to this document. We may also publish responses in full. Normally, the name and address (or part of the address) of the person or organisation who sent the response are published with the response. If you do not want your name or address published, please tell us this in writing when you send your response. We will then redact them before publishing.

You should also be aware of our responsibilities under Freedom of Information legislation. If your details are published as part of the consultation response then these published reports will be retained indefinitely. Any of your data held otherwise by Welsh Government will be kept for no more than three years.

# Further information and related documents

Number: WG43118

You can view this document in **alternative languages.** If you need it in a different format, please **contact us**.

**Y fersiwn Gymraeg ar yr 28ain o Orffennaf.**

# Cyflwyniad

Mae pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a chwiar/cwestiynu (LHDTC+) gyda'r + yn cynrychioli hunaniaethau rhywiol eraill, yn wynebu trafferthion gwirioneddol o ran anfanteision, anghydraddoldeb ac achosion o wahaniaethu. Rydym yn ymgynghori ar Gynllun Gweithredu LHDTC+ uchelgeisiol a thraws-lywodraethol i Gymru sy’n ceisio mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb strwythurol presennol a wynebir gan gymunedau LHDTC+, yn ogystal â herio achosion o wahaniaethu a chreu cymdeithas lle mae pobl LHDTC+ yn ddiogel i fyw a charu yn agored ac yn rhydd fel nhw eu hunain.

# Datblygu'r Cynllun Gweithredu LHDTC+

Rydym wedi cydweithio ag ystod eang o gynrychiolwyr o gymunedau LHDTC+ i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu hwn. Yn ystod haf 2020, fe wnaethom gomisiynu Stonewall Cymru i gasglu profiadau pobl LHDTC+ drwy arolwg (dros 600 o ymatebwyr) a chyfres o grwpiau ffocws rhithiol. Amlygodd y gwaith hwn pa themâu pwysig y dylid eu hystyried ar gyfer y Cynllun Gweithredu drafft.

Ym mis Tachwedd 2020, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Cyfeirio Allanol LHDTC+ i roi cyngor ac arweiniad, ac ym mis Ionawr 2021, sefydlwyd Panel Arbenigol Annibynnol LHDTC+ llai o faint i adeiladu ar ymgysylltiad cychwynnol Stonewall Cymru â rhanddeiliaid, gan roi cyngor strategol ar hyrwyddo cydraddoldeb LHDTC+ yng Nghymru. Fe wnaeth y Panel Arbenigol Annibynnol, a oedd yn cynnwys pobl â llawer o brofiadau yn y gymuned ac mewn sefyllfaoedd proffesiynol, sefydliadol, academaidd a phersonol, gyfarfod deirgwaith i egluro'r materion y mae rhaid mynd i'r afael â hwy os ydym am greu newid sylweddol a gwell canlyniadau i bob

person LHDTC+ yng Nghymru. Cafodd y cyfarfodydd hyn eu hategu gan weithdai ac is-grwpiau a oedd yn ystyried llawer o faterion yn fanylach.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd gomisiynu Stonewall Cymru i gynnal rhagor o sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn helpu'r Panel Arbenigol Annibynnol i ystyried profiadau croestoriadol pobl LHDTC+. Roedd y trefniadau'n cynnwys grwpiau ffocws bwrdd crwn rhithiol (yn cynrychioli pobl ifanc LHDTC+, pobl hŷn, pobl anabl a phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol) a rhai trafodaethau ychwanegol gyda sefydliadau gan gynnwys TUC Cymru, WEN Cymru a Llinell Gymorth LHDT Cymru.

Ym mis Mawrth 2021, cyflwynodd y Panel Arbenigol Annibynnol ei adroddiad a'i argymhellion. Defnyddiwyd gwaith y Panel Arbenigol hwn i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu drafft ar gyfer Hyrwyddo Cydraddoldeb LHDTC+ yng Nghymru, yr ydym yn ymgynghori arno.

Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ cenedlaethol hwn wedi'i sefydlu i helpu i gydlynu camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill. Mae'r cynllun yn nodi cyfres gyffredinol o nodau i wella cydraddoldeb i bobl LHDTC+ ac mae hefyd yn cynnwys ystod eang o gamau gweithredu penodol i bolisi sy'n ymwneud â Hawliau Dynol a Chydnabyddiaeth; Diogelwch; Cartrefi a Chymunedau; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Addysg; a'r Gweithle.

# Amserlen yr ymgynghoriad

Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal am 12 wythnos. Rydym yn croesawu safbwyntiau pobl LHDTC +, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn ehangach ac rydym am glywed eich adborth.
Byddwn yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad i fireinio fersiwn derfynol o'r Cynllun. Byddwn yn ceisio cyhoeddi'r cynllun terfynol yn gynnar yn 2022.

# Yr hyn yr ydym am ei gael gennych

Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC + yn cynnwys camau gweithredu clir wedi'u targedu a bydd yr ymgynghoriad hwn yn ein helpu i gael adborth mewn sawl maes. Rydym wedi gosod nifer o gwestiynau ichi eu

hystyried. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r holl ymatebion a gallant fod yn y fformat sy’n fwyaf addas i chi. Os hoffech anfon clip fideo atom gyda'ch sylwadau a'ch syniadau, neu os byddai'n well gennych ysgrifennu eich syniadau yn yr iaith yr ydych chi'n teimlo'n fwy cyfforddus yn ysgrifennu ynddi, byddem yn croesawu hyn.

Ni fyddwn yn goddef sylwadau annymunol am gyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd, hil, crefydd nac anabledd neb a bydd unrhyw ymatebion sy'n cynnwys iaith casineb yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdodau.

# Cwestiynau’r Ymgynghoriad

Mae chwe phrif thema i'r Cynllun Gweithredu: Hawliau Dynol a Chydnabyddiaeth; Diogelwch; Cartrefi a Chymunedau; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Addysg; a'r Gweithle. Hoffem gael eich barn ar y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer pob thema. Efallai yr hoffech roi sylwadau ar un o’r meysydd hyn neu bob un ohonynt.

Defnyddiwch y cwestiynau canlynol fel sail i'ch ymateb. Mae croeso i chi ychwanegu sylwadau neu wybodaeth ychwanegol os dymunwch.

## Cwestiwn 1

A ydych chi'n meddwl y bydd y Cynllun Gweithredu yn gwella cydraddoldeb i bobl LHDTC+ a beth ddylai'r blaenoriaethau fod yn eich barn chi?

## Cwestiwn 2

A ydych chi'n cytuno â'r nodau cyffredinol? Beth fyddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei ddileu mewn perthynas â'r nodau cyffredinol?

## Cwestiwn 3

A ydych yn cytuno â'r camau gweithredu sy’n cael eu cynnig? Beth fyddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei ddileu mewn perthynas â'r camau gweithredu?

## Cwestiwn 4

Beth yw'r prif heriau a allai atal y nodau a'r camau rhag cael eu cyflawni?

## Cwestiwn 5

Pa adnoddau (gallai hyn gynnwys cyllid, amser staff, hyfforddiant, mynediad at wasanaethau cymorth neu wasanaethau eiriolaeth ymhlith pethau eraill) a fydd yn angenrheidiol yn eich barn chi wrth gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu a amlinellir?

## Cwestiwn 6

A ydych chi'n teimlo bod y Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn ymdrin yn ddigonol â chroestoriadedd LHDTC+ â nodweddion gwarchodedig eraill, megis hil, crefydd neu gred, anabledd, oedran, rhywedd, a phriodas a phartneriaeth sifil? Os nad ydych yn teimlo ei fod yn gwneud hynny, sut y gallwn wella hyn?

## Cwestiwn 7

Hoffem gael eich barn ar unrhyw effeithiau y byddai’r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

## Cwestiwn 8

Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r dull polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac er mwn sicrhau na fydd effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## Cwestiwn 9

Datblygwyd y cynllun hwn ar y cyd, ac mae trafodaethau ynghylch iaith a hunaniaeth wedi dangos y dylid defnyddio'r acronym LHDTC+. Mae hyn yn sefyll am bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a chwiar/cwestiynu, gyda'r + yn cynrychioli hunaniaethau rhywiol eraill. O ganlyniad, rydym yn cyfeirio at bobl LHDTC+ yn y Cynllun.

Beth yw eich barn am y term hwn ac a oes dewis amgen y byddai'n well gennych? Efallai y bydd siaradwyr Cymraeg am ystyried terminoleg addas yn y ddwy iaith.

## Cwestiwn 10

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi ymdrin yn benodol â nhw, gallwch eu nodi isod:

# Sut i ymateb

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn **22 Hydref 2021**, drwy unrhyw un o'r ffyrdd a ganlyn:

- llenwi ein **ffurflen ar-lein**
- lawrlwytho, llenwi ein **ffurflen ymateb** a'i hanfon ar e-bost at **LGBTQ+ActionPlan@llyw.cymru**
- lawrlwytho, llenwi ein **ffurflen ymateb** a'i phostio i:

Y Tîm Cydraddoldeb
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

# Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i’w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu ‘dileu’
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi’n gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech i’ch ymateb aros yn ddienw, **dywedwch wrthym ni**.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

## Y Swyddog Diogelu Data

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: **data.protectionofficer@llyw.cymru**

## Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn : 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: **ico.org.uk**

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ni fydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud oni bai ei fod yn cael ei wneud o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel. Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal mewn modd priodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion.

Dylech hefyd wybod am ein dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

# Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Rhif: WG43118

Gallwch weld y ddogfen hon mewn **ieithoedd amgen**. Os ydych am gael y ddogfen mewn fformat gwahanol, **cysylltwch â ni**.

1(c) Esboniad o pam fod y fersiwn Gymraeg gyfredol yn dweud y'i diweddarwyd ar yr 28ain o Orffennaf, tra mewn gwirionedd ei bod yn dweud hyn:

"Atgoffir ymatebwyr bod yr hawl i ryddid mynegiant yn hawl amodol a bod troseddau penodol mewn perthynas â throseddau casineb a grëwyd gan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 a Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988 er enghraifft. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cynhyrchu canllawiau ar faterion yn ymwneud â rhyddid mynegiant a lle y gallai hyn fod wedi'i gyfyngu."

sef cyfieithiad Cymraeg o'r testun newydd Saesneg isod a ychwanegwyd ar ddiwedd mis Awst:

"Respondents are reminded that the right to freedom of expression is a qualified right and there are specific offences in relation to hate crime created by, for example, the Public Order Act 1986 and the Malicious Communications Act 1988. The Equality and Human Rights Commission have produced **guidance on issues relating to freedom of expression** and where this may be restricted. Please ensure that any response you make to the consultation is lawful."

**Ein hymateb:**

**Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ryddid mynegiant. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai hyn fod yn faes sensitif o bolisi cyhoeddus. Cafodd datganiad ynghylch peidio â goddef sylwadau atgas ei gynnwys yn wreiddiol gyda'r bwriad o sicrhau nad oedd unrhyw wahaniaethu yn erbyn unigolion neu grwpiau o bobl o ganlyniad i'w nodweddion gwarchodedig. Rydym wedi ystyried y pryderon a godwyd ac wedi diwygio'r llenyddiaeth ymgynghori yn unol â hynny:**

**"Atgoffir ymatebwyr bod yr hawl i ryddid mynegiant yn hawl amodol a bod troseddau penodol mewn perthynas â throseddau casineb a grëwyd gan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 a Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988 er enghraifft. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cynhyrchu canllawiau ar faterion yn ymwneud â rhyddid mynegiant a lle y gallai hyn fod wedi'i gyfyngu."**

**Sicrhewch fod unrhyw ymateb a wnewch i'r ymgynghoriad yn gyfreithlon. Nid yw'r dyddiadau "Diweddarwyd ddiwethaf" ar gyfer cynnwys ar LLYW.CYMRU yn cael eu diweddaru oni bai bod rhywbeth yn cael ei ychwanegu neu ei ddiwygio sy'n newid natur neu ystyr yr hyn sydd eisoes wedi'i gyhoeddi yn sylweddol.**

**Y tro hwn, roedd y paragraff a ychwanegwyd yn ymateb i nifer o sylwadau amhriodol/sarhaus a ddaeth i law ac felly nid oedd yn newid natur na chynnig yr ymgynghoriad, felly ni roddwyd hysbysiad am ddiweddariad ar y fersiwn Gymraeg na'r Saesneg.**